

Ar ddydd Mawrth, 21ain Ebrill 2009 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn am 7.00 pm

PRESENNOL: Y Cyng. R Owen (Cadeirydd); Mrs E Davies; Mrs G Price; Mrs K Walker; D Sheppard; D M Hughes; D R Morgan; D Jones a'r clerc

- 2464** Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyng. Trefor Davies; Melvyn Evans a T Lewis
- 2465** **Materion Personol:** Wrth anfon ei ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol yn y Cyfarfod, dwedodd y Cyng. Melvyn Evans hefyd bod yn flin ganddo na fyddai'n gallu derbyn yr enwebiad i fod yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer 2009/10 oherwydd pwysau gwaith. PENDERFYNWYD enwebu aelod arall yn ei le yng nghyfarfod mis Mai.
- 2466** **Datgan buddiant personol/rhagfarnol:** Dim un
- 2467** **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2009 fel cofnod cywir o'r Cyfarfod. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:

Cofnod 2460 - Map Cymunedol a Bwrdd Dehongli Daearegol: Yn ogystal â'r Map o Ardal Trefeurig ar gyfer Penrhyn-coch a archebwyd gan y Cyngor, darparwyd Bwrdd Dehongli Daearegol yn rhad ac am ddim gan RIGS i'w osod yn lle'r un yng Nghwmsymlog. Bydd angen gosod hwn ar y wal garreg. PENDERFYNWYD awdurdodi'r clerc i gael amcanbrisiau ar gyfer y gwaith.

Cofnod 2461 - Glanhau Cabannau Aros Bws: Bydd Y Cyng. G Price yn cysylltu â phreswlydd fydd o bosib yn gallu awgrymu ffynhonnell gymorth.

Cofnod 2463 – Derbyniad Band Eang: Bydd y clerc yn holi am gyngor pellach ar sut i fynd ati i gefnogi cais am well derbyniad band eang yn yr ardal

- 2468** **Dogfen Ymgynghoriad Cyn-adneuo Ceredigion:** Rhoddodd y Cyng. R Owen grynodedd o'r prif faterion a geir o fewn y dogfennau a'r amcanion a'r polisïau a grëwyd i geisio mynd i'r afael â'r materion hyn. Yn dilyn trafodaeth faith cytunwyd ar ymatebion arfaethedig a PHENDERFYNWYD cwblhau a dychwelyd yr holiadur.

- 2469** **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan yr Aelodau fel cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned:**

Datblygu Ysbyty Bronglais: Cyfleuster Parcio a Theithio newydd arfaethedig:

Ar 7 Ebrill 2009 mynychodd y Cyng. D Sheppard, K Walker a'r clerc gyfarfod yn Aberystwyth ynghylch y bwriad i greu cyfleuster Parcio a Theithio ar gyfer 200 o gerbydau ar Fferm Penglais, i'w ddefnyddio gan y Brifysgol a staff yr ysbyty tra mae gwaith adeiladu'n mynd rhagddo yn yr ysbyty. Ni fydd hwn ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol i ddechrau.

Cyfarfod Ardal Un Llais Cymru 9fed Ebrill 2009: Yn ei adroddiad ar y Cyfarfod, dwedodd y Cyng. R Owen y bydd ULIC yn ysgrifennu at Adran Gynllunio Ceredigion ynghylch y bwriad i gwtogi ar y cyfnod ymgynghori a ganiateir ar gyfer ceisiadau cynllunio. PENDERFYNWYD ysgrifennu i gefnogi cais ULIC i'r Post Brenhinol i ddefnyddio Ceredigion yn hytrach na Dyfed.

Penbontrhydybeddau - ymyl y ffordd yn dirywio rhwng Hen Ysgol Trefeurig a Phendorlan:

Ar 27ain Mawrth, mynychodd Elin Jones AC gyfarfod ym Mhenbont gyda'r Cadeirydd, y Cyng. R Owen, aelodau eraill o'r Cyngor a thrigolion lleol.

Trafododd y rhai oedd yn bresennol eu pryder ynghylch cyflwr bregus ymyl y ffordd a'r tir sydd oddi tani. Cytunodd Elin Jones AC i gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion.

Derbyniwyd ac ystyriwyd yr ohebiaeth/dogfennau canlynol:-

- 2470** **Mark Williams AS ynghylch cais am Olau Llwybr Troed – Cefn Meurig, Penrhiwnewydd:** Mewn ymateb i lythyr gan un o drigolion Penrhiwnewydd, ysgrifennodd yr AS i ofyn a oedd y Cyngor wedi ystyried gosod golau ar y llwybr troed yn yr ardal hon. PENDERFYNWYD ateb nad oedd y Cyngor yn ystyried y gellid cyfiawnhau'r gost o £4,000 + TAW ar gyfer un lamp yn unig ar hyn o bryd.
- 2471** **Cylchlythyr – Comisiwn Ffiniau Cymru:** PENDERFYNWYD ei ddosbarthu.
- 2472** **Adroddiad a Dogfen Ymgynghorol gan Airtricity:** Trafodwyd yr Adroddiad a'r papur briffio a PHENDERFYNWYD ymateb (i) bod y Cyngor yn cefnogi'r cynigion diwygiedig a (ii) cwblhau a dychwelyd y ffurflen yn gosod y themâu gwariant arfaethedig er budd cymunedau mewn trefn blaenoriaeth
- 2473** **Dŵr Cymru:** Hysbysiad ynghylch pibell ddŵr gymunedol yng Nghwmerfyn. PENDERFYNWYD peidio â gweithredu.
- 2474** **Llwybr Troed 9/38, Cwmisaf, Penbontrhydybeddau:** Gwyriad arfaethedig. PENDERFYNWYD cefnogi'r cynigion.

- Fforwm Hawliau Tramwy Ceredigion:** Cynigion ar gyfer sefydlu Fforwm Hawliau Tramwy a Mynediad. PENDERFYNWYD peidio â chefnogi'r bwriad a nodi bod nifer o'n Hawliau Tramwy'n croesi Tir Gofal ac nad ydynt felly'n gymwys i dderbyn Grantiau Gwelliant.
- 2475 Gwasanaethau Amgylcheddol Ceredigion:** Hysbysiad bod y problem garthffosiaeth yn gorlifo ym Mhenbontrhydybeddau wedi'i datrys. PENDERFYNWYD ymateb bod nifer o adroddiadau wedi'u derbyn i'r gwrthwyneb a bod yna broblem ychwanegol mewn eiddo arall.
- 2476 Cais am fin halen yng Nghefnllwyd:** Mewn ymateb i lythyr gan un o drigolion Cefnllwyd, PENDERFYNWYD ysgrifennu at Adran Briffyrdd Ceredigion i gefnogi'r cais am fin halen yn y pentref ac i ail-gyflwyno cais y Cyngor am finiau halen yng Nghwmerfyn; Allt Cwm Isaf, Penbontrhydybeddau a ger Gwarffin, Penrhiwnewydd
- 2477 Gwahoddiad i Gyflwyniad gan y Fyddin yn Aberystwyth ar 13.05.09:** PENDERFYNWYD ei nodi.
- 2478 Un Llais Cymru:** (i) Cofnodion Cyfarfod Ardal 20/01/09 – PENDERFYNWYD eu derbyn.
(ii) **Enwebu dau aelod i gynrychioli'r Cyngor mewn Cyfarfodydd Ardal:** PENDERFYNWYD y bydd y Cyng. K Walker ac R Owen yn parhau fel cynrychiolwyr ar gyfer 2009/10
(iii) **2008/09 Dyfarnu Cyflog Terfynol ar gyfer Clercod Cynghorau:** PENDERFYNWYD ei dderbyn.
- 2479 Y Post Brenhinol:** Cadarnhad bod yr ymholiadau'n parhau parthed y cais i newid y cyfeiriad post i Penbontrhydybeddau
- 2480 Menter Aberystwyth:** Hysbysiad ynghylch cyfarfod Menter Aberystwyth heddiw 21.04.09.
- 2481 Penbontrhydybeddau:** Hysbysiad gan Adran Briffyrdd Ceredigion y bydd ffordd rhif C 1013 ar gau dros dro rhwng Pendorlan a Penbont House, Penbontrhydybeddau o **8.00 am 18fed Mai hyd 5.00 pm 8fed Mehefin 2009.** (I osod dwythell BT ac adeiladu siambr uno)
- MATERION ARIANNOL**
- 2482 Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diwedd Mawrth 31 2009:** Cafodd pob aelod grynoded o Dderbynebau a Thaliadau'r Cyngor a chopi o Gyfriflen Gysoni'r Banc ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008/09.
Roedd y cyfanswm incwm am y flwyddyn yn £16,285 yn erbyn gwariant o £13,729 gan adael balans o £2,556 i'w ddwyn ymlaen.
Gwiriwyd y ffigyrau yn erbyn y Llyfr Arian Parod, y datganiadau banc a'r dogfennau ac fe'u cymeradwywyd gan y Cyngor a'u harwyddo gan y Cadeirydd.
- 2483 Archwiliad Blynyddol 2008/09:** Cyflwynwyd y Ffurflen Flynyddol i'r Cyngor.
Adran 1 – Y Gyfriflen: Gwiriwyd y manylion yn erbyn yr holl ddogfennau perthnasol; fe'u cymeradwywyd gan y Cyngor a'u harwyddo gan y Cadeirydd.
Adran 2 – Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol: Darllenwyd eitemau 1 i 8 a chawsant eu cytuno gan y Cyngor. Doedd eitem 9 ddim yn gymwys. Cafodd y Datganiad ei gymeradwyo, ei gwblhau ac yna ei arwyddo gan y Cadeirydd.
PENDERFYNWYD anfon y Ffurflen Flynyddol a'r holl ddogfennau angenrheidiol ymlaen i'r Archwiliwr Mewnol.
- 2484 Gwahoddiad i adnewyddu'r Yswiriant gydag Allianz Insurance:** PENDERFYNWYD trafod hyn yng nghyfarfod mis Mai
- 2485 Gwahoddiad i brynu bylbiau cennin Pedr:** PENDERFYNWYD gwneud ymholiadau ac ystyried gosod archeb gwerth £20 (tua 1000 o fylbiau)
- 2486 Linda Griffiths – Cyfieithu Mawrth 2009: £63.07:** PENDERFYNWYD talu. Siec 919.
- 2487 Nodwyd y Penderfyniadau Cynllunio canlynol:**
A080701 Tir gerllaw Hen Ysgol Trefeurig - annedd: gwrthodwyd caniatâd.
A080979 Tŷ'r Ysgol, Trefeurig: gwelliannau ac estyniad: rhoddyd caniatâd
A090095 44 Dôl Helyg, Penrhyncoch: estyniad: rhoddyd caniatâd
A030530 Tir Amwynder Dôl Helyg, P/Coch: cynghorwyd i gysylltu â'r Datblygwyr parthed perchnogaeth.
- 2488 Cais Cynllunio A090167 Dolwen, P/coch – Cadw/addasu'r gwaith adeiladu:** PENDERFYNWYD y Cyngor gefnogi'r gwelliannau arfaethedig.
- 2489 Cynhelir y Cyfarfod nesaf yn Ysgol Trefeurig. Cynhelir Cyfarfod Agored am 7.00 pm ac yna'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol am 7.30 pm**

2490 Cytunwyd i gynnwys yr eitemau canlynol ar yr agenda nesaf: Symud y lamp o ystâd Glanseilo; Biniâu - Ardal chwarae, P/coch; Tyllau yn y ffordd a draen wedi blocio, Penrhynoch.
Daeth y Cyfarfod i ben am 10.00 pm.